

Cyngor da ar gyfer datganiadau i'r wasg:

- Dylai'r neges allweddol yn eich datganiad i'r wasg amlygu pam fod tai yn allweddol mewn gwahanol feysydd e.e.
 - Ôl-osod yn gwella iechyd tenantiaid
 - Cartrefi parhaol newydd ar gyfer pobl ddigartref
 - Cartrefi modwlar yn creu swyddi lleol
 - Partneriaeth gyda byrddau iechyd lleol i gyfleu negeseuon Covid
 - Buddsoddiad yn yr ardal leol yn cyfrannu at adfywio trefi
- Dylai'r datganiad i'r wasg ganolbwyntio ar eich astudiaeth achos cryfaf
- Gwneud y datganiad wasg yn berthnasol a rhanbarthol yn y llinell gyntaf a chyfeirio'n ôl ar yr effaith cyffredinol e.e. bydd cartrefi newydd yn y Gogledd yn creu swyddi lleol
- Ni ddylai'r paragraff cyntaf fod yn fwy na dwy linell
- Dylai paragraff dau ymlaen fod yn 2-5 llinell
- Cadwch eich brawddegau heb fod yn fwy na 25 gair o hyd
- Mae templed o ddatganiad islaw

Templed o ddatganiad:

Buddsoddi mewn tai newydd effeithiol o ran ynni yng Nghonwy yn creu XX swydd leol

Arwain gyda neges allweddol yr astudiaeth achos

Bydd cynllun newydd o XX o gartrefi newydd fforddiadwy ac effeithiol o ran ynni yng Nghymru yn creu XX o swyddi newydd ar gyfer pobl yng Ngogledd Cymru.

Mewn tua pedwar paragraff o 2-3 llinell, nodwch y pwyntiau allweddol o'ch astudiaeth achos, gan gofio am y brif nod, sef amlygu pam fod tai yn allweddol i economi, iechyd, ffyniant a chysylltedd.

Dylid cynnwys dyfyniad gan bobl sy'n ymwneud â'r astudiaeth achos. Gan ddefnyddio enghraifft o swyddi newydd, yn ddefnyddol byddai hyn yn ddyfyniad gan weithiwr cyflogedig newydd ac un arall gan yr arweinydd prosiect.

Dywedodd XX:

“Ar ôl dod yn ddi-waith fel canlyniad i'r pandemig, rwyf wedi treulio nifer o fisoedd yn edrych am waith.

“Pan welais yr hysbyseb am swydd XX, roedd yn cyd-fynd yn dda gyda fy mhrofiad, a rydw i hefyd yn hoffi'r syniad o fedru gweithio'n lleol ar rywbeth a fyddai hefyd o fudd i bobl leol

“Rwyf wedi bod wrth fy modd yn gweld y cartrefi yn cael eu codi ac yn edrych ymlaen at weld pobl yn mwynhau am eu cartrefi newydd. Dwi'n awr yn methu aros am y prosiect nesaf.”

Dywedodd XX o gymdeithas tai XX:

Dylai dyfyniad eich sefydliad hefyd gwmpasu rhai o negeseuon allweddol y maniffesto, a chlymu yn ôl at y neges bod tai yn allweddol i adferiad ac y dylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Gymru nesaf.

“Mae'r flwyddyn ddiwethaf yn wirioneddol wedi dangos pa mor bwysig yw cartref ansawdd da i iechyd a llesiant pobl.

“Drwy'r prosiect, rydym wedi medru buddsoddi £xx yn yr economi leol, a chreu XX o swyddi newydd ar gyfer pobl fel XX y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt.

“Gyda'r etholiadau i Senedd Cymru ar fin digwydd, rydym yn ymroddedig i weithio law yn llaw gyda Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr y caiff tai ei weld fel anodd allweddol yn adferiad Cymru yn dilyn y pandemig.”

Nodiadau golygyddol:

Rhowch eich manylion cyswllt a dolen yma.

Darllenwch fwy am faniffesto Cartref y sector tai yma.